# EVANS, JAMES THOMAS (1878 - 1950), prifathro coleg y Bedyddwyr, Bangor

**Enw:** James Thomas Evans
**Dyddiad geni:** 1878
**Dyddiad marw:** 1950
**Priod:** Annie Evans (née Humphreys)
**Rhiant:** Ann Evans (née Williams)
**Rhiant:** William Evans
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** prifathro coleg y Bedyddwyr, Bangor
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Addysg
**Awdur:** Tom Ellis Jones

Ganwyd 1 Mawrth 1878 yn Abercwmboi, yn fab i William Evans ac Ann Williams ei wraig. Symudodd y teulu i Bont-y-gwaith, ac yno dechreuodd y mab bregethu. Bu am gyfnod yn academi Pontypridd cyn ei dderbyn i goleg a phrifysgol Bangor yn 1900, lle y graddiodd gydag anrhydedd mewn Hebraeg. Enillodd wobr y Deon Edwards ac ysgoloriaeth George Osborne Morgan, ac aeth i Leipzig am gwrs pellach o efrydiaeth. Enillodd M.A. Cymru yn 1905 a B.D. Llundain yn 1910. Etholwyd ef yn 1906 yn olynydd i'r Dr. Witton Davies yn athro Hebraeg yng ngholeg y Bedyddwyr, a dilynodd Silas Morris yn 1923 yn bennaeth y Coleg. Cyhoeddodd amryw ysgrifau, esboniad ar *Lyfr Amos*, ac yr oedd yn un o is-olygyddion y *Geiriadur Beiblaidd* a gyhoeddwyd gan Urdd Graddedigion y Brifysgol. Cyhoeddodd hefyd lawlyfr hylaw ar *Grefydd yr Hen Destament*. Bu yn llywydd Cymanfa Bedyddwyr Arfon, a rhoes wasanaeth mawr drwy'r blynyddoedd i'w enwad yn eglwysi'r Gogledd. Priododd 18 Medi 1907, Annie Humphreys. Bu farw 28 Chwefror 1950 a chladdwyd ef yng ngladdfa Glanwydden.

## Awdur

**Y Parchedig Brifathro Tom Ellis Jones**, (1900 - 1975)

## Ffynonellau

*Seren Cymru*, 24 a 31 Mawrth 1950

*Hanes Coleg y Bedyddwyr yng Ngogledd Cymru, 1862–1927* (1928), 104-6

*Penodau yn Hanes y Bedyddwyr Cymreig* (1949), 119

*Who was who?*, 1941-50

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733335

**Dyddiad cyhoeddi:** 1970

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu